YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 5.] MAI, 1923. [PRIS 3c

.. CYNHWYSIAD. ..

YN Y GYNHADLEDD YN MANCEINION.
ODDIAR Y TWR.
ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1923.
IACHAWDWRIAETH TRWY GYMERIAD.
Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.
CYMANFA GANU DE-DWYRAIN CYMRU.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandysul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfr Newydd allan o'r Wasg.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH"

— GAN —

Alfred Hall, M.A.,

CYFIEITHIWYD GAN

T. Oswald Williams, B.A.

110 tudalen. Pris 3c.; trwy'r post 4½c. 13 am bris 12.

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1923. [CYF. XXIII. RHIF 5.

YN Y GYNHADLEDD YM MANCEINION.

(Ebrill 16—20).

AR ol pregethu dwy bregeth ar y Sul, a siarad am lu o bethau a hwn a'r llall, nid oes ynnwyf, fel rheol, awydd i godi gyda'r wawr ar fore dydd Llun. Ond bore Llun, Ebrill yr 16eg, yr oedd pethau yn ymddangos yn wahanol, a bum bron anghofio fod gennyf ben tost. Yr oedd gŵyl dair-blynyddol yr enwad i agor ym Manceinion ar y dydd hwnnw, ac yr oeddwn innau wedi arfaethu bod yn bresennol. Yr oedd y disgwyliadau'n uchel ac amrywiol, ac ymlwybrais tua'r orsaf yn ysgafndroed. Trwy gyfrwng *scrap of paper* rhoddais ar ddeall i'r awdurdodau yno mai cynrychiolydd oeddwn i'r Gynhadledd Undodaidd, a chefais ostyngiad sylweddol ym mhris fy nhocyn teithio—nid peth dibwys i ddyn sydd yn byw ar drugaredd y cyhoedd. Yr oeddwn yn teimlo wrth hyn fod Undodiaeth yn rhywbeth pwysig gan fod awdurdodau'r rheilffyrdd yn barod i roddi pob rhwyddineb iddi i drafaelu.

Yr arwyddion cyntaf gefais fod y Gynhadledd ar fin cwrdd oedd tua Crewe, pan y gwelais y Parch. J. Park Davies, Nantwich, yn cerdded yn ol a blaen ar y *platform* a'i fag yn ei law. Wedi cyfarch ein gilydd, fe ddechreuwyd cynhadledda ar unwaith, a chafwyd awr felus wrth y gwaith yn y trên cyn cyrhaedd Mecca ein pererindod. Gwr addfwyn, diymhongar yw Mr. Davies, yn cario graddau tair Prifysgol ar ei gefn heb deimlo dim oddiwrth eu pwysau.

Wedi cyrhaedd y ddinas enwog ymadawsom i gwrdd yn ol llaw yn y Milton Hall—cynullfan y cyfarfodydd. Yr oedd yr olygfa yno yn rhywbeth i ryfeddu ati. Ni ddisgwylid cynulliad mawr ar y diwrnod cyntaf, ond erbyn amser tê yr oedd y neuadd eang yn orlawn o wŷr a gwragedd a gweinidogion o wahanol fannau o Loegr, yr Alban, yr Iwerddon, a Chymru. Yr oedd y lle yn un berw brwdfrydig ben bwy gilydd—hen gyfeillion yn cwrdd, a chyfeillion newydd yn cael eu gwneud, a phennod arall ardderchog yn dechreu cael ei hysgrifennu yn hanes y Ffydd Undodaidd.

Yn yr hwyr yng Nghapel Cross St., cafwyd gwasanaeth crefyddol a phregeth gan y Parch. C. J. Street, M.A., Ll.B., yr hwn sydd yn parhau, er wedi ymneilltuo o'r weinidogaeth, i wasanaethu yr enwad yn ganmoladwy mewn amryw gyfeiriadau. Y mae wedi ei ethol yn llywydd y Gynhadledd am y tair blynedd nesaf.

Dydd Mawrth aethom i'r Cymundeb am ddeg o'r gloch yn yr un capel. Cafwyd oedfa aruchel ei dylanwad ar waethaf y ffaith nad oedd yno *individual communion cups*. Nis gallwn lai na theimlo nad oedd yfed o'r un cwpan yn gydweddol ag yspryd dysgeidiaeth Iesu Grist, beth bynnag am y llythyren. "*Cleanliness is next to Godliness*," meddai'r Sais, ond ni ddaeth i fyny a'i ddiareb y tro hwn.

Ar ddiwedd y cwrdd hwn, deuthum o hyd i Olygydd Yr Ymofynydd, neu'r "*Welsh Inquirer*" yn iaith y Sais. Yr oeddwn yn disgwyl y buasai ef yn bresennol, canys yr oedd ei enw ar raglen y Gynhadledd—yr unig Gymro gymerodd ran y tro hwn. Yr oedd rhai o honom a thipyn o bryder yn ei gylch, oherwydd nid peth rhwydd oedd i bregethwr Cymreig i sefyll i fyny o flaen cynulleidfa Seisnig mor ddysgedig; a theimlem hefyd fod anrhydedd yr "Ysmotyn Du" yn y fantol. Yr oedd yntau yn cyfaddef ei fod yn *nervous*, ond wedi ei glywed yn rhoi'r emyn cyntaf allan deallais fod popeth yn dda. Darfu iddo gymyrchu yspryd defosiynol ar y dechreu, ac fel yr elai rhagddo yr oedd ei lais yn cryfhau ac yn swnio'n felodaidd trwy'r neuadd eang, tra gwahanol i'r proffeswr y soniai'r Hybarch R. J. J. am dano yn Ymofynydd Ebrill. Efe oedd perchennog y llais goreu o'r oll gymerodd ran yn y Gynhadledd, ac yr oedd ei fater a'i neges yn amserol ac yn hynod o bwrpasol i'r amgylchiad. Clywais ef yn cael ei longyfarch gan rai o weinidogion pwysicaf yr enwad yn Lloegr, ac wrth glywed y "llongyfarchiadau" yr oeddwn yn barod i ymffrostio—"Dyna'r graig o'r hon y'm naddwyd innau." Nis gwn a ydyw gweinidog Llandyssul a'i wyneb ar y weinidogaeth Seisnig, ond yr wyf yn sicr fod y Saeson yn barod i roi porfa fras iddo, os y myn. Hyd yn hyn y mae ef wedi "dewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser."

Yn ystod yr wŷl cwrddais ag ereill o blant Undodiaeth Cymru, ac yn eu plith y Parch. Gwilym Evans, Dukinfield. Y mae ef yn weinidog un o'n heglwysi mwyaf dylanwadol yn Lloegr—eglwys ag hanes ardderchog o'r tu ol iddi, ac eglwys sydd yn parhau i wneud hanes o hyd. Y mae Gwilym yn Gaplan i ddau Faer eleni—Maer Dukinfield, a Maer Ashton gerllaw. Un o ganlynwyr Wesle yw Maer Ashton, ond gan fod ei eglwys yn digwydd bod heb weinidog, barnodd nas gallai wneud dim yn well na gofyn i weinidog yr Hen Gapel yn Dukinfield i fod yn Gaplan iddo. Clywais hefyd fod rhyw frawd uniongred, tua phythefnos yn ol wedi beiddio ymosod dan ffugenw yn un o bapurau lleol Dukinfield ar y Ffydd Undodaidd. Cyhoeddodd Gwilym y buasai yn ei ateb o'i bwlpud ar nos Sul. Y canlyniad oedd iddo gael cynulleidfa o rai cannoedd, a thra yr oedd yn amddiffyn Undodiaeth mewn pregeth ysgubol, wele ddyn yn

dorf dan ddylanwad yr hyawdledd yn gwaeddi allan—*Hear, Hear*—ffordd y Sais o ddweyd Amen.

Cyfarfyddais hefyd a'r Parch. J. Islan Jones, Hindley. Y mae ef yn dal mor unionsyth ag erioed, a barnu oddiwrth argoelion ei wynebpryd yn parhau yn fyfyriwr caled o hyd. Efe yw ysgrifennydd Cymdeithas Undodaidd y North-East Lancashire. Nid yw eto wedi gofyn i neb i ddod i'w helpu i gario'r baich. Maddeued i mi am ei adgofio mai gwell yw dau nag un ymhobman ond wrth y ford. Cawd ymgom hefyd a'r ddau Jenkius, o Flaenywaun—y ddau yn llond eu cotiau, a chochni awelon iachus yr hen Sir yn para i ddisgleirio yn eu gwedd ar waethaf mwg y dinasoedd. Gwelais hefyd y Parch. D. J. Evans, Caer. Y mae'r tân Celtaidd yn llosgi o hyd yn ei fynwes, ac y mae yn para yn *sweet melodious Tenor*. Nid oes amser na gofod i wneud rhagor nag enwi y plant ereill oedd yn bresennol, y Parchn. Simon Jones, Nottingham; Rhoslwyn Davies, Blackley; Herbert Jones, Caerdydd; Glyn Evans, Mossley; E. T. Evans, Merthyr; Harry Andrew, Aberdar; D. J. Williams, a Glyn Davies, o'r Iwerddon; Ben Davies, Chesham; W. E. Williams, Stourbridge; Dr. Griffiths, o Aberystwyth yn awr; W. J. Phillips, Porthcawl, a'i fab, Priestley Phillips, Sale, a John Evans, Rochdale. Ond beth am y Gynhadledd? Un peth dynnodd fy sylw oedd y nifer o leygwyr gymerai ran. Lleygwr oedd y llywydd, sef, W. Byng Kenrick, B.A., Birmingham, nai i'r diweddar Wir Anrhydeddus Joseph Chamberlain. Siaradai Richard D. Holt, Lerpwl, ar "Fasnach a Heddwch y Byd"; P. M. Oliver, B.A., Manceinion, ar "Y Wladwriaeth a Heddwch y Byd"; Dr. Bishop Harman, F.R.C.P., *Specialist* o Harley Street, Llundain, a Dr. Foster Watson, cyn-broffesswr yn Aberystwyth, ar y "Feddyleg Newydd." Cymerwyd y gadair mewn amryw gyfarfodydd gan Hugh R. Rathbone, M.A., Lerpwl; C. Sydney Jones, M.A., Lerpwl, a Henry P. Greg, M.A., Manceinion. Y mae'r teuluoedd hyn yn deuluoedd cyfrifol ym Masnach Prydain Fawr, a dyna galondid oedd eu gweled yn cymeryd rhan mor flaenllaw yng ngweithrediadau yr enwad. Teimlem fod gennym *reserves* arddechog o'r tu ol, ac fod anrhydedd a dylanwad y "praidd bychan" yn ddiogel yn nwylaw y lleygwyr adnabyddus hyn. Dywed Dr. Selbie, yr Annibynwr enwog, yn ei lyfr ar "Ymneilldnaeth," fel hyn—"*The Unitarians have rendered very great service to the cause of the Free Churches on their zeal for education and social reform, and by their steady advocacy of freedom of theological thought.*" Sonia Dr. Selbie yn fwyaf neilltuol am y tadau, ond a barnu oddiwrth y Gynhadledd y mae gan y dô bresennol o Undodiaid eu cyfraniad i wneud i'r achosion pwysig hyn. Yr oedd araeth Dr. Jacks ar "Addysg a Chrefydd" yn *challenging*, ac yn torri tir newydd i raddau. "Bu amser," meddai, "pan yr oedd pawb yn mynd i'r eglwys, ond ychydig fyddai'n mynd i'r ysgol. Heddyw y mae pethau yn wahanol: y mae pawb yn mynd i'r ysgol, ond ychydig sy'n mynd i'r eglwysi. Os na osodir i lawr y seiliau ysprydol yn yr ysgolion, pa le arall y gellir gwneud hynny? Mae'r ysgolfeistriaid

goreu heddyw yn dyfod i gredu os yw crefydd i gael dyfod i fewn i'r ysgolion mai trwyddynt hwy, ac nid trwy neb o'r tuallan y mae hynny i ddyfod oddiamgylch. *Religion and Education are a unity. If they separated their functions neither would prosper. If they united, they might accomplish together what neither would accomplish separately.*" Yr oedd safbwynt Dr. Bowie dipyn yn wahanol. Dywedai ef yn ei araeth fod yna berigl y byddid yn rhuthro deddf trwy'r Senedd i roi lle i addysg enwadol yn yr ysgolion, ac y byddai hynny yn beth gwrthun. Condemniai y *Welsh Concordat* a chytundebau cyffelyb: "Yr ydym wyneb yn wyneb," meddai Dr. Bowie, "ag adnewyddiad o'r hen frwydr rhwng galluoedd traddodiad a galluoedd blaenfynediad, a dylasai'r cyhoedd gael ei rybuddio o'r peryglon sydd ymlaen."

Wel, y mae'r stori yn mynd yn hir, ond y mae'r *Conversazione* gynhaliwyd yn Neuadd Ddinesig Manceinion, yn teilyngu gair cyn sychu'r ysgrif-bin. Rhyw fath o gwrdd clebran ac yfed tê oedd. Bernir fod o fil i bymtheg cant o bobl yn bresennol. Yr oedd côr cymysg Manceinion yno i ddyddori'r dorf, ac fe ganodd yn wych amryw ddarnau Seisnig yn ol tuag amser "teyrnasiad Bess." Yn y byd cerddorol ar hyn o bryd y mae yna adfywiad o'r hyn a elwir yn fiwsig cenedlaethol. Yr oedd yn amlwg oddiwrth y cyfarfod hwn nad yw Undodiaeth ar fin ei bedd, fel y proffwyda rhai. Yn hytrach, son sydd ei bod yn adnewyddu ei nerth. Pleser i ni oedd gweled yn y cyfarfod hwn ferch, wyres, ac wyr i Gwilym Marles. Yr oedd *features* y ferch ieuanc—ei gwyneb, bron yn union yr un fath ag eiddo Gwilym yn yr uuig ddarlun wyf wedi weld o honno. Dyn mawr oedd Gwilym—arwr cenedl. Gofynned y Golygydd i'w ohebydd "C. C." i roi desgrifiad o Gwilym mewn cyfarfod yn y Cwrtnewydd. Os nad wyf yn camsyniad yr oedd ef yn un o'r gwyddfodolion.

Ond i ddiweddu gyda'r Gynhadledd. Yn ystod yr wythnos derbyniodd y llywydd frys-neges oddiwrth Dr. Eliot, arweinydd y Gymdeithas Undodaidd Americanaidd, yn cludo "dymuniadau da" yr Amerig. Yn y wlad honno y mae'r Undodiaid yn ddylanwadol iawn. Yr oedd rhywbeth boddhaol mewn teimlo ein bod yn perthyn i symudiad byd-lydan. Y mae ysbrydiaeth a chalondid yn y syniad fod yna nifer fawr yn ceisio gwneud yr un gwaith, ac yn pleidio'r un delfrydau mewn llawer o wledydd heblaw ein gwlad ni ein hunain. Wrth feddwl am hyn dihunir ynnom y *sense of solidarity*, ac y mae hynny yn beth gwerthfawr iawn; a dyna mi gredaf oedd un o amcanion Cynhadledd Manceinion, ac fe lwyddodd tuhwnt i'r disgwyliadau goreu.

D. Cellan Evans,

Northampton, Ebrill 23, 1923.

ODDIAR Y TWR.

Un o destynau ymffrost pennaf pob Prydeiniwr yw'r rhyddid—gwladol, cymdeithasol, a chrefyddol—fwynheir ganddo. Cyhyd ag y ceidw'r dinesydd ei hun tu fewn i derfynau'r gyfraith, gall drefnu ei fywyd fel y mŷn; gall broffesu'r grefydd apelia ato; neu, gall ymwrthod â chrefydd yn llwyr, os felly y barna'n oreu; gall bleidio pa syniadau neu blaid wleidyddol bynnag a ewyllysia. Braint werthfawr iawn yw hon; a dylai pob Prydeiniwr fod yn ofalus iawn rhag gwneud o hono ddim a duedda i'w amddifadu o honi neu i'w chyfyngu. Ni olygaf, wrth ddweyd fel hyn, fod yr oll o ryddid wedi ei enill ag y mae gan bob dinesydd hawl iddo; neu, fod ein cyfreithiau y gore posibl; nac ychwaith nad oes un perygl i'n rhyddid gael ei gyfyngu. Y mae gelynion rhyddid o hyd yn fyw; ac y maent fyth yn effro i gymeryd gafael ar bob cyfle i gyrraedd eu hamcan.

***

O bob agwedd o'n rhyddid, rhyddid y Wasg ydyw un o'r pwysicaf a gwerthfawrocaf. Cyhyd ag y ceidw'r Wasg ei hun yn rhydd o bob athrod neu fradwriaeth yn erbyn buddiannau'r werin—yn enwedig teyrnfradwriaeth—gall draethu pob math ar syniad, ac amddiffyn a phleidio pob math ar achos, a ewyllysia; ac fel rheol, y mae colofnau'r Wasg yn agored i bob dinesydd i wyntyllu unrhyw syniad neu bleidio unrhyw achos neu fudiad y barna'n angenrheidiol. Braint werthfawr iawn yw hon hefyd, wedi ei hennill inni ar ol hir frwydrau; a braint ydyw esyd ym meddiant y Wasg allu a dylanwad ar fywyd y werin na ellir yn hawdd ei fesur. Braidd na ellir ei hystyried yn un o bileri pennaf ein Hymherodraeth; fe'i gelwir, weithiau, yn briodol iawn, yn bedwerydd piler Ymherodraeth Prydain Fawr.

Braint yw hon, hefyd, heblaw bod yn werthfawr, a esyd gyfrifoldeb mawr ar y rhai ydynt gyfrifol am gynnwys y Wasg; yn enwedig y cyfrifoldeb o wylied rhag i ddim gael ymddangos yn ein colofnau o duedd niweidiol i foesau'r werin. Ydyw'r Wasg yn ddigon effro i'r cyfrifoldeb hwn? O ddarllen ein papyrau dyddiol ac wythnosol, fe greir ynof, weithiau, gryn amheuaeth parthed y mater hwn. Braidd yr â diwrnod heibio heb i achosion o ysgariaeth a throseddau aflan eraill gael eu dwyn i sylw'r cyhoedd drwy gyfrwng y newyddiadur; a phorthir meddwl y darllenydd â phob math ar fanylion aflan. Fe ymdrechir cyfiawnhau hyn drwy honni fod cyhoeddusrwydd yn gymaint cosb a dim ar y drwg-weithredwyr. Gwir yw fod cryn dipyn o nerth yn yr honiad hwn. Ffordd arall o gyfiawnhau yw—fod y Wasg yn gweini i chwaeth y cyhoedd. Y mae gormod o wirionedd yn hyn hefyd. Tra'n cydnabod yr anhawsterau wyneba'r Wasg, dymunol iawn fyddai pe gellid osgoi'r nodweddau aflan y cwynir o'u plegid yn eu hadroddiadau o droseddau y mae cymdeithas—yn enwedig y dosbeirth uchelaf o gymdeithas—mor warthus o euog o honynt.

***

Y mae llawer math ar gymdeithasau wedi eu sefydlu o bryd i'w gilydd—pob un o'r rhai amcanai ateb rhyw ddiben ym mywyd rhyw ddosbarth neu arall o ddynion. Cymdeithasau hynod iawn yw rhai o honynt—hynod ar gyfrif eu hamcan, ar gyfrif amodau aelodaeth o honynt, ac yn y blaen. Cymdeithas hynod iawn oedd yr un ddaeth i fodolaeth yn ystod y rhyfel diweddar, ac a elwid "The Smiling Society." Ei diben pennaf oedd annog dynion a benywod i wisgo gwên ar y wyneb yn wastadol—ymhob rhyw gyflwr.

Daeth i fodolaeth yn ddisymwth—ymron mor ddisymwth a chicaion Jona; ac mewn dull hynod iawn. Un adeg, yn amser y rhyfel, pan oedd y rhagolygon ymron bod yn anobeithiol o dywyll, ofnid yn gyffredinol fod y frwydr ar droi yn ein herbyn, a bod haul gogoniant Prydain Fawr mewn perygl o fachludo. Yn teithio gyda'r gerbydres bob bore i ddinas Llundain yr oedd nifer o ddynion a ymdynghedasant na ollyngent hwy mo'u gafael ar bob gobaith, gan nad pwy wnai hynny. Fe barhaent hwy i obeithio, ac i wenu, doed a ddelai. Dyna ddechreu'r gymdeithas y cyfeiriais ati.

***

Fel yn achos pob cymdeithas, yr oedd i hon ei rheolau. Dyma rai o honynt. (1) Fod pob aelod i wneud ei oreu i sirioli a dedwyddoli eraill; oblegid dyna'r unig ffordd iddo wneyd ei hun yn siriol a dedwydd. (2) Fod pob aelod i arfer ei hun i droi ei olwg i gyfeiriad codiad haul, ac nid i gyfeiriad gostyngiad haul; hynny yw, i feithrin yn ei fynwes y teimlad o obaith fod pethau gwell i ddod, yn hytrach na'r teimlad anobeithgar—fod pethau'n llithro o ddrwg i waeth. (3) Fod pob aelod i arfer ei hun i edrych ar yr ochr oreu, oleu, i bob digwyddiad; ac i ymdrechu darbwyllo eraill, trwy esiampl a chyngor, i wneud yr un peth. Nid dyna'r oll o'r rheolau; eithr fe ddyry'r tair hyn inni syniad gweddol gywir gyda golwg ar amcan y gymdeithas a'i dull o gyrraedd ei hamcan.

***

Dywedais eisioes mai cymdeithas hynod oedd hon. Ac eto, braidd y gellid dychmygu am gymdeithas a mwy o'i heisiau. Oblegid un o anghenion pennaf ein dydd yw'r ysbryd siriol, gobeithgar, a'n tuedda i edrych, hyd y gellir, ar ochr oleu pethau. A gallai'r gymdeithas dan sylw, pe wedi parhau—yr hyn ni wnaeth—fod yn un o'r cymdeithasau mwyaf bendithiol, ie, gwir grefyddol hefyd. Oblegid "calon lawen (siriol) wna les fel meddyginiaeth"—nid i'r corff yn unig, eithr i'r enaid hefyd. Ai nid dyna beth ddylai pob Eglwys Gristionogol fod — cymdeithas o ddynion a benywod a ymdrechant feithrin sirioldeb calon yn wyneb pob math ar amgylchiad? Yng nghrefydd y gorffennol, arferid cysylltu â chrefydd yr ysbryd prudd, trymaidd, trist; dyna, meddid, oedd yn gweddu i ddynion crefyddol. Golwg gamsyniol oedd hon; oblegid ni all neb fforddio bod yn llawen, siriol, a gobeithgar, fel y gwir Gristion neu'r dyn gwir grefyddol. "Llawenychais," medd y Salmydd, "pan ddywedent wrthyf, Awn i dy yr Arglwydd." Dyna, yn ddiamheuol, i'm tyb i o leiaf, un o swyddi Eglwys Gristionogol — pelydru gobaith a sirioldeb ar fywydau'r sawl ânt i'w chynteddoedd.

***

Fe'm harweiniwyd i wneud y sylwadau uchod gan ddyfodiad y ddrama i fywyd Cymru. Peth newydd yw hyn—i ni fel cenedl. Ac y mae, fel llawer o bethau newydd eraill, wedi apelio at a gafaelyd ym meddwl a chydymdeimlad y werin yn rhyfeddol o nerthol. Fe gynhyrchir dramodau o bob math wrth y dwsenni—braidd na'm cymhellir i ddweyd wrth y cannoedd—dramodau tlawd, cyffredin, da, a rhagorol; er mai ychydig iawn yw nifer y rhai y gellir eu desgrifio fel yn dda a rhagorol. Ac amlygir inni gan ei dyfodiad a'i phoblogrwydd y cyfnewidiad rhyfeddol o fawr ym marn pobl grefyddol Cymru parthed y ddrama. Tebyg yr edrychir arni'n gilwgus gan lawer eto; ond y mae'r ddrama, yn ddios, wedi dod i aros; ac nid edrych yn gilwgus arni ddylai'r Eglwysi wneud, eithr rhoi iddi bob cefnogaeth. Fe all y ddrama ateb yr un diben a phregeth, trwy ddinoethi o honi'r drwg, a chefnogi'r da; ac fe all wneud un peth na fedr y bregeth wneud, sef bod yn gyfrwng i gynhyrchu'r chwerthiad iachus, a pheri i ddynion

a benywod—galluogi dynion a benywod—felly, i anghofio'u ffwdanau a'u gofidiau am ennyd.

***

Yn ei hieuenctid y mae'r ddrama yng Nghymru eto. Ac fel pobpeth newydd, dwg arwyddion o addfedrwydd, hyd yn oed o blentyneiddiwch weithiau. Ond fe dyf allan o'i hanaddfedrwydd bob yn dipyn. Yn y tyfiant hwn fe all yr Eglwys Gristionogol chwareu rhan bwysig ; a barnu wrth y mesur cynhyddol o nodded roddir iddi gan yr Eglwysi, y mae sail i gredu na fydd iddynt syrthio'n ol o wneud eu rhan.

***

Misolyn dyddorol iawn yw'r *Cyfarwyddwr*. Misolyn cyd-enwadol ydyw, wedi ei amcanu at wasanaeth Ysgolion Sul y pedwar enwad—yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid. Nid newyddian ydyw bellach ; y mae eisioes wedi sangu dros drothwy'i ail flwyddyn, ac ymddanghosa fel pe'n ennill nerth o un mis i'r llall. Diddorol iawn i mi oedd darllen yn rhifyn Ebrill am y cydweithrediad rhwng y pedwar enwad yng ngwaith yr Ysgol Sul. Cyrhaedda'r cydweithrediad belled a hyn o leiaf—mai'r un yw Maes Llafur ysgolion y pedwar enwad. Yn ddios, ennill mawr iawn yw hyn. Y mae, a dweyd y lleiaf, yn gam pwysig yng nghyfeiriad yr adeg pan fydd Cymru, mewn ystyr grefyddol, yn un Gymru.

***

Y mae "Cyffes Ffydd" y Methodistiaid Calfinaidd ar fin ei chanmlwydd. Bwriedir dathlu'r amgylchiad yn ystod y flwyddyn bresennol. Dywedir y ffynna teimlad gweddol gryf a chyffredinol yn y Cyfundeb, yn enwedig ymhlith y dô ieuanc o Fethodistiaid, o blaid agweddu tipyn ar hagrwch rhai o'r gosodiadau duwinyddol, os nad eu cyfnewid. Ni phair hyn un syndod i'r cyfarwydd â'i chynnwys. Ni all un gyfundrefn dduwinyddol aros yr un "ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." Na, y mae'r hyn hyn eilw'r Almaenwr yn "Zeitgeist" neu "ysbryd yr oes," yn gwneud hafog hyd yn oed â duwinyddiaeth. Diddorol iawn i mi oedd llythyr Archesgob yr Eglwys Gymreig yn datgan cydymdeimlad â'r dymuniad am agweddiad a chyfnewidiad. Ond ni raid synnu oblegid hyn ; y mae'r un mater yn blino'r Eglwys ; fe ffynna teimlad cryf yn yr Eglwys o blaid "diwygio'r Llyfr Gweddi Gyffredin" ; ac yn Lloegr fe wneir ymgais yn y cyfeiriad hwn. Fel edmygydd o lawer o gynnwys y "Llyfr Gweddi Gyffredin," ac fel darllenydd achlysurol o'r oll o hono, llawenychaf oblegid hyn. Heblaw ei gredoau henafol a gwrthun, fe ddisgyn llawer o'i ymadroddion yn arw ar y glust—ymadroddion a roddant fynegiad i feddyliau anaddas mewn addoliad cyhoeddus Cristionogol.

***

Tra'n sôn am y Methodistiaid, bûm ymron colli'm hanadl pan ddarllenais anerchiad yn un o'r papyrau y dydd o'r blaen yn cynnwys awgrymiad o blaid uno'r Methodistiaid a'r Annibynwyr ; ac o enau Annibynwr—o bawb—y daeth yr awgrymiad. Ac eto, pam lai ? Wn i o leiaf ddim am un rheswm oddigerth y teimlad enwadol. Ymhopeth hanfodol nid oes—i'm tyb i, o leiaf—un gwahaniaeth ; yn yr an-hanfodol y mae'r gwahaniaethau. Tipyn o ysbryd "rhoi a derbyn" sy'n eisiau, gyda chydymdeimlad y gwyliaf pa dderbyniad roddir i'r awgrymiad. Y mae popeth yn bosibl yn yr amserau hynod hyn. Cofus gennyf ddarllen ychydig amser yn ol am uno'r Annibynwyr a'r Undodiaid. *Ond yn America y digwyddodd hynny.* Ysbryd uno yw ysbryd nodweddiadol ein hoes yn yr Eglwysi ; a dyry hyn inni obaith y cyflawner y broffwydoliaeth—

"Daw dydd pan na fydd corlan ond
un trwy'r byd yn bod,
A Christ yn ben ei hunan, nid teyrn,
nid pab di-nod."

SYLWEDYDD.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1923.

SAFON I.

ALLTYPLACA.—Dosbarth I.— Bessie Jane Davies, William John Albert Rees, Daniel Verdun Davies, John Elwyn Evans, David Thomas Davies. Dosbarth II.—Elizabeth Mary Dillys Rees, Cyril Rees Price, John Howell Davies.

BRONDEIFI.—Dosbarth I. — Donald Williams, Mary Elizabeth Davies, Phyllis James, Mary Olwen Davies. Dosbarth II.—Dillys Davies.

CAPEL Y FADFA —Dosbarth I. — Hetty Elizabeth Evans, Betty Mary Griffiths, Rachel Ellen Thomas, Mary Hannah Thomas, Tom Lloyd Thomas, Alfred Brown, David Tom Jones. Dosbarth II. — Mary Anne Davies, Anne Gwyneth Evans.

CAPEL Y BRYN.—Dosbarth I. — Hilda Jones, Molly Jenkins, Eiluned Jones, Tegwen Davies, Edith Jones. Dosbarth II. — Hannah Glenyth Davies, Arianwen Jones.

CAPEL Y GRAIG. - Dosbarth I.—May Davies, Ajah Evans, Jessie Evans.

CAPEL Y GROES. —Dosbarth I.—Eilir Evans, Meredith Thomas, Howell Lloyd Jones. Dosbarth II.—Hannah Elizabeth Morgans.

CRIBYN.—Dosbarth II.—Bronwen Williams.

CILIAU.—Dosbarth I. — Jane Evelyn Davies, Tom Tyssul Davies, Edward John Jones, Thomas Daniel Jones.

LLWYNRHYDOWEN.—Dosbarth I. — William John Lewis, Daff Davies, John Davies, Evan John Evans, Mally Evans, Hannah Evans, Mary Evans, Jenkin Jones.

RHYDYGWIN.—Dosbarth I.—Nellie Lloyd.

SAFON II.

Dosbarth Anrhydedd. — Nancy G. Thomas, Capel y Graig, *Enillydd y Bathodyn* ; Evan L. Pugh, Capel y Bryn ; Bessie Davies, Ciliau ; *Lizzie Davies, Caeronen ; *Sarah A. Jones, Capel y Graig ; *Mary A. Lewis, Cillau ; Sallie Davies, Cribyn ; John Jones, Capel y Bryn ; Oliver Jones, Llwyn. Dosbarth I.—Nellie Jones, Ciliau ; Rees T. Williams, Cribyn ; Thomas F. E. Hughes, Caeronen ; David Ll. Evans, Capel y Bryn ; Howell Thomas, Capel y Groes ; Gwyneth Williams, Llwyn ; *Bettie Williams, Llwyn ; *Mary H. Dudley, Llwyn ; *Sarah A. Morgans, Capel y Bryn. Dosbarth II.—Griffith Jones, Capel y Groes, Rowland H. Jones, Capel y Bryn ; Stanley Jones, Capel y Bryn.

SAFON III.

Dosbarth Anrhydedd.—Sally Jones, Llwyn, *Enillydd y Bathodyn* ; John S. Ll. Evans, Capel y Bryn ; Mary M. Jones, Capel y Graig ; Jennie Davies, Brondeifi ; Evan D. Davies, Brondeifi ; Hannah Jenkins, Capel y Bryn ; Dinah Davies, Caeronen ; *Martha Herbert, Cribyn ; *Mary Evans, Capel y Bryn ; *Elizabeth A. Pugh, Capel y Bryn ; *Mary Jones, Capel y Fadfa ; *Hannah Jones, Capel y Bryn ; *Hannah M. Davies,

Capel y Bryn ; Lizzie B. Jones, Capel y Fadfa ; David Davies, Caeronen ; Dosbarth I.—Nance Evans, Capel y Cwm ; Nancy Davies, Capel y Cwm ; *Mia Lewis, Cribyn ; *Daniel Hughes, Cribyn ; *John Lewis, Cribyn ; *Evan Garfield Howells, Cribyn ; Annie M. Williams, Alltyplaca ; John Howell Williams, Cribyn ; Bessie Jones, Capel y Groes ; *Gwendoline Jones, Llwyn ; *Edgar Evans, Capel y Bryn ; Willie Pugh, Capel y Bryn ; David Jones, Brondeifi. Dosbarth II. - Hannah Evans, Cribyn ; Alun Evans, Capel y Groes ; Anne Jones, Llwyn ; Mary A. Davies, Alltyplaca ; Hannah M. Evans, Capel y Groes ; Megan James, Llwyn ; Sarah M. Jones, Capel y Groes ; Humphrey Davies, Capel y Groes ; Evan J. Thomas, Capel y Fadfa ; *Timothy Jones, Capel y Groes ; *Fanny Davies, Capel y Fadfa ; Evan T. Evans, Capel y Cwm ; *Edwin Brown, Capel y Fadfa ; *Jane Evans, Capel y Fadfa ; Daniel James, Llwyn ; *Willie Brown, Capel y Fadfa ; *Ieuan Jones, Capel y Groes.

SAFON IV.

Dosbarth Anrhydedd.—Rachel Edith Evans, Rhydygwin, *Enillydd y Bathodyn* ; *Mary Davies, Capel y Graig ; *Daniel Ceiriog E Jenkins, Rhydygwin ; Jane Olwen Jones, Capel y Graig. Dosbarth I.—Mary Jane Jones, Capel y Fadfa. Dosbarth II.—Jane Jones, Capel y Groes ; Mary Anne Thomas, Capel y Groes.

Sylwadau ar yr Uchod.

(1) Yn Safon I., nodwyd rhai ymgeiswyr fel yn deilwng o anrhydedd gan dri o'r Arholwyr, tra na wnawd hynny gan y lleill. Er gochelyd gwneud un gwahaniaeth, rhennir yr ymgeiswyr i ddau ddosbarth yn unig. Gan na roddir gwobrwyon yn Safon I. gan Bwyllgor yr Ysgol Sul, anogir yr Ysgolion i wneud i fyny'r diffyg.

(2) Yn Safonau II—IV, rhoddir yr enwau yn ol eu teilyngdod. Dynoda (*) y cyplysir yr enwau hyn fel yn gydradd.

(3) Teg yw rhoddi sylwadau'r Arholwr ar y gore ymhob Safon. Safon II.—Am enillydd y Bathodyn, dywed—"This is an excellent paper, while the next one is a very good paper also." Ac am yr oll yn Nosbarth Anrhydedd—"The honours group is of surprisingly high order." Safon III.—Am enillydd y Bathodyn—"This is an able and pleasing paper, and with the 'small dust of the balance' takes the medal. The two following are excellent papers, especially the first of them." Safon IV—Am enillydd y Bathodyn—"This is indeed an excellent paper, reflecting great credit on the candidate and her teacher." Ac am y ddau nesaf ati—"These two are splendid papers, and have only just missed the highest honour."

(4) Dyma ddywed yr Arholwr am yr Arholiad yn gyffredinol : "I have spared no trouble that each candidate might have a full measure of justice. The task of marking has convinced me that this method is the most satisfactory one for examining the Sunday Schools. I had some doubt on the matter until I came to the marking, but now I uphold it whatever one or two of the invigilators think. It should be impressed upon invigilators that copying should be discouraged. Some two or three scholars in the lower forms of one school resorted to it, and, as one might expect, got wrong answers. The Honours Class is simply splendid, and it is a treat to read the answers. Division I. is also quite good on the whole. The first half of the Pass List [Division II.) is creditable, and it is evident that some of them are quite young, while the second half are young and indifferent. No one has failed."

IACHAWDWRIAETH TRWY GYMERIAD.

Achosir cryn lawer o ddyryswch yn y byd yma trwy ddefnyddio geiriau amwys, aneglur. Y mae wedi bod yn hen arfer gan yr Undodiaid erioed i siarad cryn lawer am gymeriad, ac ychydig iawn am iachawdwriaeth. Ac eto nid yw y gair *cymeriad* yn air Beiblaidd. A gesglir gennym oherwydd hynny nad oedd ysgrifennwyr y Beibl yn gosod pwys ar gymeriad. Pell o hynny! Nid oes dim a ddyrchefir ganddynt mor gyson, ac a restrir ganddynt mor uchel. Yr oedd holl ddynion mawr y Beibl yn gymeriadau mawrion: hynny o flaen popeth arall. Ac am eu bod y cyfryw, yr edrychir i fyny atynt, eu cofir, ac a'u hanrydeddir. Heb gymeriad, ni baent ddim. Felly, os nad arferir y gair cymeriad yn y Beibl, gwna'r Beibl ddefnyddio ymadroddion eraill, er pwysleisio'n ddibaid ar y peth ei hunan. Dywedwn ninnau y *credwn mewn Iachawdwriaeth trwy Gymeriad*.

Nawr mae iachawdwriaeth yn golygu diogelwch: a golyga hynny ddiogelwch rhag rhywbeth. Beth yw'r hyn, ynte, yr ewyllysiwn ni gael ein gwaredu rhagddo? Daliai'n hen gredinwyr mai y peth y mae ar ddynion eisiau cael eu gwaredu rhagddo yw cospedigaeth mewn byd arall—uffern.

I'w tybiau hwy, yr oedd iachawdwriaeth yn golygu ac yn sicrhau iddynt daith ddiogel i mewn i'r nefoedd yn y byd tuhwnt i'r llen. Erbyn hyn, yn fwy a mwy, hyd yn oed ym mhlith credinwyr uniongred, edrychir ar grefydd fel gallu sydd yn ymdrin a phynciau perthynol i'r bywyd hwn—nid y nesaf. Yr hyn a amcana ei wneud yw nid cadw dynion allan o uffern mewn rhyw arall fyd, ond eu cadw hwynt allan o bob uffern yma ar y ddaear. Ei hamcan yw, nid cael dynion i'r nefoedd, ond cael y nefoedd i ddynion. Mewn geiriau eraill, mae iachawdwriaeth yn golygu ffaith bresennol yn fwy na gwynfydedigrwydd dyfodol. Mae'n golygu y cyflwr o gael ein hachub oddiwrth bethau oddiamgylch inni ym mhob man, ac o'n mewn. A pha bethau yw y rhai hynny'r ewyllysiwn oll yn daer gael ein gwaredu oddiwrthynt? Cyferfydd pob un ohonom â hwynt; gwyr pob un ohonom eu hystyr a'u perigl.

Y cyntaf o'r cwbl yw pechod—a'r oll a olygir wrth bechod. Y mae pechod y synwyrau, a'r pechod o hunangarwch, yn fwy amlwg na'r un efallai. Pwy ohonom na charai cael ei waredu rhagddo yn ei holl weddau, a'i ddwyn i deimlo ei fod yn sâff? Ac yn nesaf at bechod, geir yr hyn a arweinia i bechod—profedigaeth.

Gwyddom oll mai profedigaeth gyffredin iawn yn y dyddiau presennol yw y baco, y bibell, y sigaren, y cwpan, a chyfeddach y dafarn. Gwawried y dydd yn fuan pan ddelo y bobl hyn i deimlo fod arferion o'r fath yn rhy anheilwng o ddynion, heb son am ddim arall. Braint fawr yw bod yn ddiogel yn awr y brofedigaeth. Hefyd, y mae yna beth arall y carem oll fod yn ddiogel rhagddo — methiant. Oherwydd y mae gan y rhan luosocaf ohonom ryw bethau y carem eu gwneuthur, a'u gorffen, ac ofnwn yn aml iawn rhag methu ohonom. Y mae yna lawer o bethau eraill, heb eu henwi, y byddai'n dda inni gael ein gwaredu rhagddynt. A pha beth yw'r cyfrwng mwyaf llwyddiannus at sicrhau ein hiachawdwriaeth? Nis gwyddom ond am un peth—cymeriad.

Ond beth ydym i ddeall wrth gymeriad? Yn gyntaf, nid yw cymeriad a gair da, neu enw da, yn sicr o fod yn gyfystyr. Nid yw'r cymeriad da a roddir i ddyn yn

sicrwydd fod dyn yn meddu ar gymeriad da. Credir mewn gwirionedd gan lawer o ddynion eu bod yn dda am eu cyfrifir felly. Ond pan ddelo awr y brofedigaeth, nid yw gair da yn unig yn gallu achub neb. Na! nid gair da yn unig yw cymeriad, ac y mae yn syrthio'n fyr o'r gallu i roddi iachawdwriaeth.

Yn ail, nid gallu meddyliol yw cymeriad. Mae yna duedd yn y byd i addoli talent, ond ni fedr talentau byth gymeryd lle rhinweddau, na gwneud gwaith rhinweddau. Nid yw cyrhaeddiadau meddyliol yn gallu llanw lle rhinweddau moesol. Nid yw craffter meddwl yn feddiannol ar y gallu achubol sydd mewn caredigrwydd calon. Nid yw côf craffus yn rhyddhau dyn am fod yn amddifad o gydymdeimlad. Na! nid diwylliant meddyliol yw cymeriad.

Yn drydydd, nid yw cymeriad yn gynnwysedig mewn gwneud gweithredoedd da yn unig. Gall dyn wneud gweithredoedd da heb fod yn ddyn da—gall borthi y tlodion a'i holl dda heb feddu ar gymeriad. Nid gweithredoedd, gan hynny, sydd yn achub. Cymeriad yn unig sydd yn achub.

Beth a olygir gennym, ynte, wrth gymeriad? Mae cymeriad yn golygu'r hyn sydd wedi ei argraffu yn ddwfn ar ein henaid. Nid peth arwynebol yw cymeriad, ond mae'n bwnc y galon, yr ewyllys, a'r gydwybod. Nid yw hyd yn oed daioni yn gymeriad nes gyru ohono ei wreiddiau mor ddwfn i'n natur fel nad ellir ei ddiwreiddio, nes dod ohono yn rhan wreiddiol ohonom ni ein hunain.

A phan mae'r pethau a orchymynir gan y ddeddf wedi eu hargraffu yn ddwfn ar lechau y bywyd mewnol, y mae'n rhwydd cadw y gorchymynion. Pan mae'r galon wedi ei hachub, y mae'r bywyd ei hunan yn ddwyfol. Nid yw cymeriad yn gynnwysedig mewn *gwneud* hyn neu arall yn unig, ond mewn *bod* yn iawn a chywir. A garem ni wneud gweithredoedd cariadus? Yna mae'n rhaid inni, yn gyntaf, gadw cariad yn allu ysgogol yn ein bywyd. Pan y siaredir gennym, gan hynny, am gymeriad fel ag yw mewn gwirionedd, siaredir gennym am bethau dyfnion ac am bethau mawrion—am bethau sanctaidd a dwyfol.

Nid yw'r efengyl hon o'r eiddom yn un rwydd—yn efengyl a gyhoedda iachawdwriaeth trwy gymeriad, ac ofnaf ein bod yn aml yn anghofio nad yw siarad am gymeriad ddim yn sicr o fod yn golygu adeiladu cymeriad. Nid yw gosod cymeriad o flaen credo yn sicrwydd y caiff cymeriad ei ddatblygu gennym. Nis gall cyngor na gorchymynion achub dyn; dim ond trwy ddwfn fyfyrdod ar ran dyn gyda golwg ar beth yw ystyr y Gorchymynion mawr, a pha beth a geisiant ganddo i'w gwneud, a phan yr ufuddha, mae'r dyn mewn gwirionedd wedi cael gafael mewn iachawdwriaeth.

Ai oddiwrth bechod a phrofedigaeth yr ewyllysiwn ni ein gwaredu? Yr ydym yn ddiogel pan y mae cariad at burdeb a rhinwedd wedi eu hargraffu yn ddwfn ar ein heneidiau. A phan yn y cyflwr yna, nid oes achos inni ofni dim—y mae ein traed yn sefyll ar dir diogel. Nid yw yspryd cariad wedi cadw lle i hunangarwch; ac heb hunangarwch nid oes pechod.

Yr un fath gyda golwg ar fethiant. Nis gall cymeriad hawlio llwyddiant, ond gall wneud peth o fwy—gall haeddu llwyddo. A chymharol ddibwys yw methiantau bywyd allanol dyn, pan nad ydynt yn alluog i lygru y bywyd mewnol.

Yr un fath hefyd gyda golwg ar feichiau a gofidiau taith bywyd—nis gall neb ohonom braidd ddisgwyl osgoi pethau fel yna. Y feddyginiaeth oreu at wella clwyfau o'r fath yna yw helpu eraill, ar dymhorau cyffelyb. 'Cymerwch fy iau arnoch,' oedd cyngor yr Iesu i'r unig, y digalon, a'r colledig. 'Cymerwch fy iau arnoch'—at eich iau eich hunain—'canys fy iau sydd esmwyth, a'm

baich sydd ysgafn.' Yr unig un addas i'r nefoedd yw'r hwn y sydd nefoedd-debyg. Af yn ol at eiriau'r Athraw, a chlywaf ef yn dywedyd gyda phwyslais, 'Nid pob un ar sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.'

Agoraf Lyfr y Datguddiad, a darllenaf eto Ei eiriau Ef, yr hwn sydd yn barnu y byw a'r meirw—'Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr sydd gyda mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef.' Teimlaf yn sicr fod gan ddaioni syml 'addewid o'r bywyd y sydd yr awrhon, ac o'r hwn a fydd.' Oherwydd bendith y trugarogion yw eu bod yn cael trugaredd, a'r pur o galon yw eu bod yn gweld Duw; tra y mae teyrnas nefoedd eisoes yn eiddo i'r tlodion yn yr yspryd, a'r rhai ydynt amyneddgar odditan erledigaeth.

C.C.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd, dyddiau Mercher ac Iau, Ebrill 4 a 5. Ofnem y byddai y cynnulliadau yn y Cyfarfodydd hyn yn fychain, gan eu bod yn digwydd ar adeg pryd y mae amaethwyr, ac eraill, yn brysur iawn. Ofnem hefyd y gallent fod felly gan fod cynifer o bethau eraill yn awr yn tynu pobl oddicartref. Ond bu y Cyfarfodydd yn rai llwyddiannus iawn ym mhob ystyr. Yr oedd y cynulliad nos Fercher yn weddol luosog. Prynhawn Iau, yr oedd y gynulleidfa yn fwy na llond y Capel. Nid yw Cyfarfod yr hwyr olaf yn gyffredin mor luosog, ond y tro hwn yr oedd y lluosocaf yn y gyfres i gyd.

Yng ngwyneb prysurdeb pobl gyda'u gorchwylion tymhorol yr adeg hon, ac yng ngwyneb fod cymaint o bethau eraill yn ennill diddordeb rhywrai, da gennym weled cyfarfodydd crefyddol o'r fath hyn yn meddu gafael mor gryf ar serch cynnifer yn ein heglwysi, fel y caed cyfarfodydd mor lluosog ag ydym yn gofio i ni gael erioed yn amser y Pasc.

Nos Fercher, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos, a phregethwyd gan y Parchn. D. Conwil Evans, Rhydygwin, a T. O. Williams, B.A., Llanbedr.

Boreu Iau, cyflawnwyd y rhannau arweiniol gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd, a phregethwyd gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

Arweiniwyd yn y rhan ddefosiynol yng Nghyfarfod y prynhawn gan Mr. T. G. Thomas, Talgarreg, lleygwr ag sydd yn gwneud gwasanaeth mawr i'r Achos Undodaidd yn y Sir, ac un sydd yn llenwi ein pwlpudau yn aml, ac yn ddeiryniol iawn fel pregethwr. Pregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, Aberdar, ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Dechreuwyd Cyfarfod yr Hwyr gan y Parch. E. R. Dennis, a thraddodwyd pregethau gan y Parchn. T. A. Thomas, Llandyssul, a D. G. Rees, Trebanos.

Credwn nad yw y Cyfarfodydd hyn wedi myned heibio heb adael dylanwad daionus ar eu hol. Teimlem fod naws crefyddol ym mhob cyfarfod, a diau gennym fod i hynny, ynghyd ag i'r pregethau byw a

grymus a gawd, effeithiau daionus ar feddyliau a chalonnau llawer.

Arweiniwyd y canu gan Mr. Thomas Davies, Y Felin, a chyfeiliwyd wrth yr organ gan Miss Pugh, Bryngranod, a chyfranodd y canu yn fawr tuag at effeithiolrwydd y Cyfarfodydd.

Rhoddodd Eglwys Capelybryn groesaw cynes i'r dieithriaid mewn lluniaeth a serchawgrwydd.

PWYLLGOR Y PASG, 1923.

Cynhaliwyd yng Nghapelybryn, bore Iau, Ebrill 5. Dechreuwyd y gweithrediadau dan lywyddiaeth yr is-lywydd, y Parch. T. O. Williams, B.A., Llanbedr, a gorphenwyd hwynt dan lywyddiaeth y llywydd, Mr. Evan Hughes, Dihewid, yr hwn oedd ychydig yn ddiweddar yn cyrhaedd.

Wedi darllen a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor diweddaf, rhoddodd y Parch. T. A. Thomas adroddiad parthed yr ymweliad mae wedi addaw dalu â Rhydyparc, a rhoddodd ar ddeall y byddai iddo gyflawni ei addewid ymhen ychydig Suliau.

Pasiwyd fod y llyfryn "Hanner Can' Pwynt dros Undodiaeth" i gael ei werthu am dair ceiniog: fod 13 o gopiau i'r ddwsin, ac fod y Pwyllgor yn awgrymu i Bwyllgor yr Ysgol Sul y priodoldeb o geisio ei ddwyn i mewn fel *text book* i'n Ysgolion Sul.

Bu cryn siarad ynglyn a thynged y Capel a'r Achos yng Nghaerfyrddin, ond ni phasiwyd yr un penderfyniad. Teimlid mae'r unig beth fedrid ei wneud ar hyn o bryd oedd datgan y gobaith y gwnai yr unig ymddiriedolwr o'r Capel ag sydd heddyw'n fyw benodi ymddiriedolwyr newyddion yn ddioedi, ac y gofalai fod rhai o'r cyfryw o blith ein heglwysi Undodaidd yng Nghymru.

Dewiswyd y Parch. D. Evans a Mrs Evans, Cwmiago, i gynrychioli y Gymdeithas yng Nghyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Fryteinig a Thramor, a gynhelir yn Essex Hall, Llundain, wythnos y Sulgwyn.

Pasiwyd ein bod yn gofyn i Eglwys Rhydygwin dderbyn y Cyfarfodydd Blynyddol.

Ar awgrym y Llywydd, penderfynwyd sefydlu "Cymdeithas Leygwyr," ar linellau rywbeth yn debyg i'r "Laymen's League" yn Lloegr a'r Amerig. Daethpwyd i'r penderfyniad hwn yn unfrydol a brwdfrydig, gan y teimlid gan bawb fod galw mawr am fudiad o'r fath. Bu Mr Hughes mor garedig ag addaw cymeryd y peth mewn llaw. Gwna y Pwyllgor apêl daer at ein lleygwyr ar iddynt roddi pob cefnogaeth a chynhorthwy iddo ef a'r anturiaeth.

CYMANFA GANU DE-DWYRAIN CYMRU.

Dydd Mawrth, Ebrill 3ydd, cynhaliwyd Gymanfa Ganu Undeb Undodaidd De-Ddwyreiniol Cymru yn Nhabernacl, Pontardawe, trwy ganiatad caredig yr Eglwys. Y teimlad cyffredin ydoedd ei bod yn un o'r cymanfaoedd goreu yn hanes y dosbarth hwn. Gwelwyd yno gynrychiolwyr o Drebanos, Cefn Coed, Aberdâr, Rhondda, a Merthyr.

Mr. H. H. Morgan oedd yr arweinydd, ac afraid yw dweyd iddo gyflawni ei waith yn feistrolgar a gyda chymeradwyaeth mawr. Mr. Isaac Emlyn Hopkin fu wrth yr organ, a gwnaeth ei waith yn fedrus

awn.

Llawenydd oedd gweled y ddau wr ieuanc hyn yn flaenllaw yn y Gymanfa ac yn cyflawni eu gwaith mor rhagorol. Nid oes eisiau pryderu am lwyddiant y Gymanfa yn y dyfodol pan y gwelir dynion ieuainc fel hyn yn llawn asbri a thalent at y gwaith.

Llywydd y bore ydoedd Mr. John Hopkin, Pontardawe, a dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. H. Seiriol Williams, gweinidog yr Eglwys. Cafwyd cyfarfod hwylus, yn broffwydoliaeth o gymanfa ardderchog. Llywydd y prynhawn oedd Mr. J. Moy-Evans, Abertawe, a phleser oedd ei weled yn y gadair.

Yn y cyfarfod hwn pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â Mr. David Davies, Disgwylfa, yn ei afiechyd a'i lesgedd, a dymunwyd iddo adferiad buan. Ac efallai hwn oedd yr unig nodyn trist yn y Gymanfa, sef gweled llu o "hen wynebau'n" absennol.

Llywydd yr hwyr ydoedd Mr. D. W. John, J.P., Gellionen.

Cafwyd anerchiadau gan Mr. David Roderick, Clydach; Parchn. H. Seiriol Williams, E. O. Jenkins, a D. G. Rees.

Da oedd gennym weled cyfeillion o Geredigion gyda ni yn yr wyl, ac hefyd y Parch. W. J. Phillips, Nottage, a H. H. C. Jones, Caerdydd.

Pasiwyd yn unfrydol bleidlais o ddiolchgarwch i'r eglwys, i'r gweinidog, a'r swyddogion, am eu caredigrwydd inni yn ystod y dydd.

Ni chafodd ein Cymanfa well croesaw a derbyniad gan neb na chan gyfeillion y Tabernacl. Cymanfa i'w chofio fydd hon, ac nid rhyfedd y teimlad a ddatganodd llawer un, mai campus o beth fyddai cynal y Gymanfa yn Mhontardawe y tro nesaf eto.

Adroddwyd Salm i ddechreu'r gwasanaeth gan Miss Gwenllian Bennett, Gellinudd, a'r "Psalm of Life," sef geiriau yr anthem Saesneg, gan Miss Winnie Morgan. Yr anthem Gymraeg ydoedd "Duw a Sych bob Deigryn" (Gabriel).

PRIODASAU.

MERCHER, Mawrth 28, yn y Graig, Trebanos, o flaen y Parch. D. G. Rees, a'r Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, priodwyd Morgan T. Davies, Pontardawe, a Ceinwen Davies, Trebanos.

MERCHER, Ebrill 4, yn y Graig, Trebanos, o flaen y Parch. D. G. Rees, a'r Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, priodwyd Mr. Isaac Emrys Hopkin, a Miss May Watkins, y ddau o Drebanos.

MARWGOFION

MAWRTH 16, David Thomas, Ty'ngrug Cottage, gynt o Ty'ngrugissaf, Llanwenog, yn 76 mlwydd oed. Gwael oedd ei iechyd wedi bod er's rhai blynyddau, ac yr oedd yn gystuddiol er's amryw o fisoedd. Hyd y dechreuodd ei iechyd wanychu, yr oedd wedi bod yn llafurus ac yn llwyddianus iawn fel amaethwr. Meddai ar gryn lawer o wybodaeth feddyginiaethol, ac yr oedd llawer a ddioddefent oddiwrth rai afiechydon neillduol yn dod ato o bell ac agos, ac yn derbyn lleshad drwyddo. Yr oedd o ysbryd tangnefeddus, ac yn ceisio bod yn gyfeillgar â phawb. Oblegid yr ysbryd hwn ag oedd mor amlwg ynddo, yr

oedd yn barchus iawn yn mhlith ei gydnabod. Yr oedd yn ddiacon yn Eglwys y Cwm. Bu yn fawr ei sel a'i lafur dros yr achos da yma. Tua thair blynedd yn ol nid oedd y draul o adeiladu y tŷ capel wedi ei thalu i gyd, ac yr oedd mwy na phedwar ugain punt o ddyled ar yr Eglwys. Ymgymerodd ef a dileu y ddyled hon, a llwyddodd i gasglu bron yr oll o'r swm uchod, ac y mae yr Eglwys heddyw heb ddyled arni. Pryd bynag y byddai angen gwneyd unrhyw beth yn nglyn â'r lle neu â'r achos, ni fyddai yn hir cyn cael ei gyflawni wedi iddo ef ddod i wybod am dano. Bydd colled fawr ar ei ol yn yr Eglwys. Claddwyd yn mynwent eglwys y Cwm. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan gan y Parchn. T. O. Williams, B.A., a E. O. Jenkins. Gadawodd un mab a dwy ferch, dau fab-yn-nghyfraith, ac un ferch-yn-nghyfraith, mewn galar ar ei ol.

MAWRTH 25, Thomas Jones, Fronfelen, Llandyssul, yn 64 mlwydd oed. Gwanaidd oedd ei iechyd wedi bod er's blynyddau, ond yr oedd yn gallu cyflawni ei orchwylion ar ei fferm bron hyd y diwedd, ac nid oedd dim pryder ynghylch ei fywyd hyd o fewn ychydig ddyddiau cyn y terfyn, a bu ei farwolaeth yn dra sydyn. Yn Rhydcaradog, plwyf Llandyssul, y cafodd ei ddwyn i fyny, ac yno y treuliodd ddyddiau ei ieuengctid. Ymbriododd â merch ieuengaf Mr. a Mrs. Daniel Evans, Dolau-uchaf, ger Llanybyther. Bu yn ddiwyd a llafurus ar hyd ei oes, ond nid yn drachwantus. Yr oedd rhai nodweddion yn sefyll allan yn amlwg iawn yndo, ac yn harddu ei fywyd. Cawsai ei adnabod fel dyn o dymher addfwyn a llariaidd, ac o ysbryd caredig a heddychol. Parai y rhinweddau hyn fod parch mawr iddo, a syniad uchel am dano yn mhlith ei gydnabod, ac y teimla yr ardalwyr chwithdod mawr ar ei ol. Claddwyd yr lau canlynol yn Aberduar. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Alltyblacca, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Mr. Hughes, ficer Llanfihangel-ar-Arth ; E. E. Hughes (M.), Bethel, Conwil, a D. C. Griffiths, Aberduar. Gadawodd briod, dwy ferch, un chwaer, a chefnderwyr, a pherthynasau eraill, mewn galar dwys ar ei ol. Y Duw sydd yn gallu rhoi nerth yn ol yr achos a fyddo yn agos at y weddw a'i mherched.

BLIN iawn gennym gofnodi marwolaeth y brawd Thomas Jones, 35, Harriet Street, Trecynon, Aberdar, yn 76 oed. Tarawyd ef yn glaf nos Fercher, Mawrth 21ain, a bu farw bore Llun, y 26ain. Byr fu ei gystudd, a buan iawn y cyflawnodd y "pneumonia" ei waith. Tua blwyddyn yn ol y claddwyd ei frawd, y diweddar D. Eiddil Jones, Cefn, a theimlir unigrwydd mawr yn y teulu heddyw—teulu fu mewn cysylltiad â'r Hen Dy Cwrdd er's blynyddoedd lawer. Un tawel a llednais ei gymeriad oedd Thomas Jones, a chymerai ddiddordeb neilldnol yn hanes a llwyddiant pob mudiad cymdeithasol a gwladol, ac yn enwedig mewn cysylltiad â'r Hen Dy Cwrdd. Er nad oedd, oherwydd ei fod yn drwm iawn ei glyw, yn mynychu'r gwasanaeth er's llawer blwyddyn, eto nid oedd neb yn fwy llawen nag ef o glywed llwyddiant yr achos a'r enwad. Estynwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w frawd, Morgan Jones, ac i'w ddwy chwaer, Miss Jones a Mrs. Williams, yn eu gofid a'u hiraeth. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Gwener y Groglith, Mawrth 30ain, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

MANION AC HANESION.

GRAIG A GELLIONEN.—Yn Ysgoldy'r Graig, nos Fercher, Mawrth 8, cawd papur byr gan Mr. Alfred Griffiths, Trebanos, ar "Advanced Literature in the Elizabethan period." Llywyddwyd gan Mr. Lewis Morgan, Clydach.——Hefyd, yn y Graig, nos Sul, Mawrth 11, dan arweiniad Mr. John Hopkin, Brynderw, cynaliodd yr Ysgol Sul ei chyfarfod chwarterol (yr hwn gyfarfod y dymunir ei gynal o hyn allan yn gyson bob tri mis), pryd y daeth cynulliad da ynghyd i wrando a mwynhau y danteithion melus a roddwyd, yn enwedig gan y rhai ieuengaf. Cyfeiliwyd gan Miss Tilly Thomas, Mri. H. H Morgan, Isaac E. Hopkin, a David Jones, Pontardawe.——Yn y Graig, nos Sul, Ebrill 8, megis eco o'r Gymanfa ragorol gawd ym Mhontardawe, ymfoddlonodd y gynulleidfa ar gael "cwrdd canu," dan arweiniad Mr. H. H. Morgan. Adroddwyd Salm Gymraeg gan Miss Gwen Bennett, a "Psalm of Life," (Longfellow), gan Miss Winnie Morgan. Llywyddwyd gan Mr. John Hopkin.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliodd Eglwys ac Ysgol Sul y lle uchod eu Gŵyl Dê flynyddol nawn Gwener, Mawrth 23. Rhoddwyd y tê gan Mr. a Mrs. Davies, Criborfawr, a'r teulu, a thystiolaeth pawb oedd ei bod yn wledd odidog. Teimlwn yn ddiolchgar iawn iddynt am eu caredigrwydd. Wedi gorphen a'r tê cafwyd Cyfarfod Adloniadol a Chystadleuol yn yr hen gapel. Llywyddwyd gan Mr. Richard Davies, Penrallt, a beirniadwyd yr adiodd, canu, &c., gan Mr. J. Penry Lewis, Brynowen. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd tua 50 o blant am eu ffyddlondeb yn cadw'r ysgol; rhai o honynt â llyfrau, y lleill â rhoddion braf a phrydferth oddiar goeden lwythog o bethau da. Mae diolchgarwch yn ddyledus hefyd i Mrs. Davies, Clifton Hill, a Miss Anne Davies, Criborfawr, am eu llafur gyda'r plant.

TRYSORFA GYNNORTHWYOL "YR YMOFYNYDD." Dymunem gydnabod gyda diolchgarwch y symiau canlynol—Mr. John John, Cefneithrym, Clydach £1; Mr. Rhys D. Davies, Maes-y-ffrwd, Mardy 6s. 6c.; Mrs. Jones, Glanbran, Birchgrove 10s.; Mr. Ben Jones, Troedrhiw, Llanddyssul 5s.; Mrs. Jones, Frowen, Lampeter 5s.; Mr. John Davies (Bwlchog) Lloyds Bank, Clydach 10s. 6c. Danfoner tanysgrifiadau i Olygydd YR YMOFYNYDD, Llandyssul

HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH.—Y mae y llawlyfr bychan hwn allan o'r wasg, a gellir ei gael o Swyddfa YR YMOFYNYDD, Llanddyssul. Ei bris ydyw 3c., drwy y Post, 4½c. Yr awdur ydyw y Parch. Alfred Hall, M.A., a chyfieithwyd ef i'r Gymraeg gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A. Y mae yn un o'r pethau goreu gyhoeddwyd gennym o'r natur hwn. Y neb sydd am wybod beth gred yr Undodiaid ar bynciau crefyddol a diwinyddol. Ni ellir gwneud dim yn well na darllen hwn yn ofalus. Gobeithiwn alw sylw ato eto mewn rhifyn dyfodol.

CYMDEITHAS YR YSGOL SUL.—Taer erfynir ar yr Ysgolion i wneud casgliad at y Gymdeithas uchod *cyn diwedd mis Mai.* Y mae angen ychwanegu cryn lawer at gyfanswm y casgliadau, gan fod y treuliau, dan y dull newydd o arholi, wedi cynhyddu'n ddirfawr. Rhodder cyfleustra i'r cynnulleidfaoedd i gyfrannu hefyd. Dyma gyfleustra ardderchog i rai na fynychant yr Ysgol Sul i wneud ychydig drosti. Cofier—*cyn diwedd mis Mai.* Danfoner y casgliadau i Mr. Cledlyn Davies, Cwitnewydd.—D. EVANS, *Ysg.*

Oherwydd diffyg gofod, gadawyd allan amryw Farwgofion a Manion ac Hanesion. Cânt ymddangos yn ein nesaf.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,
Carmarthen. Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(Dec. 31st, 1922)* ..	**354,406,336**

Local Offices:

Llandyssul: 9, Lincoln Street

PENCADER | PONTTWELLY

Manager: R. W. ROBERTS

Over 1,670 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2